**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**10 MAWRTH 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, dydd Mawrth, 10 Mawrth 2020.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, George Hardcastle, Cindy Hinds, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Shotton ac Owen Thomas

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: David Wisinger (ar ran Vicky Perfect)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Veronica Gay, Chris Bithell a Derek Butler

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Kevin Hughes, Christine Jones a Colin Legg

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi);Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio; Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd – Rheolwr Cymunedau a Datblygu

**HEFYD YNO:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 67. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 68. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr a chawsant eu cynnig i'w cymeradwyo gan y Cynghorydd Paul Shotton a'u heilio gan y Cynghorydd Joe Johnson.

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror a chyfeiriodd y Cynghorydd Hardcastle at yr ail baragraff ar dudalen 13 ac roedd eisiau ychwanegu ei ddiolch i'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant). Cynigiwyd y cofnodion i'w cymeradwyo gan y Cynghorydd Chris Dolphin a'u heilio gan y Cynghorydd Cindy Hinds.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 69. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol cyfredol a rhoddodd fanylion byr am yr Ymweliad â Pharc Adfer ar 7 Ebrill.

Cytunwyd y byddai'r eitemau canlynol oedd wedi'u trefnu ar gyfer y cyfarfod ar 5 Mai yn cael eu gohirio tan 7 Gorffennaf er mwyn gallu cynnal gweithdy ar gynnal a chadw ffosydd a chyrsiau dŵr ar 5 Mai.

- Trydaneiddio'r Fflyd
- Rheoli Plâu

Pwysleisiodd y Cynghorydd Wisigner bwysigrwydd clirio ffosydd yn rheolaidd, ac fel enghraifft fe soniodd am sefyllfa yn Sandycrofft y llynedd pan gafwyd llifogydd gan fod ffosydd heb gael eu clirio yn wahanol i eleni, pan gafodd ffosydd eu clirio, ac o ganlyniad ni chafwyd llifogydd.

Wrth ymateb i fater a godwyd o ran newidiadau arfaethedig i lwybrau hedfan Maes Awyr Lerpwl, cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) i rannu dogfen ymgynghori Maes Awyr Lerpwl gyda'r Aelodau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at newidiadau i wasanaethau bws sydd wedi gadael ardaloedd fel Llys Alyn yn Rhydymwyn heb gludiant cyhoeddus. Cytunodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i drefnu bod Sarah Blake yn cwrdd â phreswylwyr Rhyd-y-mwyn ynglŷn a thrafnidiaeth seiliedig ar alw.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at broblem gyda chebl o dan yr A548 a dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) wrth y Pwyllgor mai'r Cyngor sydd bellach yn gyfrifol am waith atgyweirio gan ei fod y tu allan i'r cyfnod gwarant 2 flynedd a'u bod wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid gwytnwch.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Wisinger yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 70. YMCHWILIAD YR OMBWDSMAN (ADRODDIAD CYHOEDDUS)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad oedd yn cynnwys manylion cwyn a wnaed yn erbyn Cyngor Sir y Fflint a gafodd ei ymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2019. Cadarnhaodd fod y 10 argymhelliad wedi cael eu derbyn.

Fe ychwanegodd y Rheolwr Gwarchod Cymunedau a Busnes fod y tîm wedi ystyried y casgliadau'n ofalus iawn a'u bod yn ceisio symud ymlaen yn adeiladol gan ystyried y gwersi sydd wedi'u dysgu a fydd yn cael eu defnyddio fel model ar gyfer achosion eraill yn y dyfodol. Fe ffurfiwyd grŵp rhwng adrannau er

mwyn mynd i'r afael â phob achos wrth symud ymlaen a fyddai'n cael eu cofnodi'n ffurfiol yn ychwanegol i gynllun gweithredu manwl. Fe ychwanegodd fod y tîm wedi'i gydleoli yn Ewlo.

Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu at y polisi gorfodi cynllunio a'r ôl-groniad o achosion. Roedd dros 300 o achosion oedd angen eu hymchwilio. Roedd hi'n cydnabod tra bod y tîm gorfodi yn dîm bach iawn, roedd hi'n obeithiol y byddai'r adroddiad Archwilio Mewnol yn foddhaol.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio dywedodd y Cynghorydd Wisinger nad oedd yn hapus gyda'r hyn oedd wedi digwydd, ond cafodd gwersi eu dysgu ac roedd o'n hyderus y byddai'r gwasanaeth yn parhau i wella. Fe groesawodd y cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Mynegodd y Cynghorydd Cindy Hinds bryderon ynglŷn ag adeiladau oedd wedi eu hesgeuluso. Gan ymateb dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) fod yna bot bychan o arian i'w roi/benthyg i berchnogion adeiladau mewn cyflwr gwael i'w helpu i'w defnyddio eto.

Roedd y Cynghorydd Sean Bibby o'r farn fod yna welliant mawr wedi bod yn y modd y mae achosion gorfodi yn cael eu trin. Roedd yn teimlo fod y broses cwynion newydd yn gweithio'n dda ac roedd yn cydnabod llwyth achosion prysur y swyddogion.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu drosolwg o strwythur y Tîm Gorfodi a dywedodd y byddai pob swyddog yn gyfrifol am tua 80-90 achos, ond byddai unrhyw un o'r swyddogion yn gallu rhoi diweddariad i aelodau ar unrhyw achos. Yn ychwanegol, cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio a Datblygu) i ddosbarthu rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost y Tîm Gorfodi i Aelodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Wisinger yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd George Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi camau gweithredu a gymerwyd gan yr Adran Cynllunio, Yr Amgylchedd ac Economi fel yr amlinellir ym mharagraffau 54 a 55 yr adroddiad fel y nodir yn Atodiad 2.

## 71. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2019/20

Cyd-gyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) a'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad ar grynodeb perfformiad sefyllfa Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2019) ar gyfer 2019/20 ar flaenoriaethau 'Cyngor Gwyrdd', 'Cyngor Uchelgeisiol' a Chyngor Diogel a Glân' Cynllun y Cyngor i'r Pwyllgor.

Roedd y Cynghorydd Hardcastle eisiau diolch i'r adran Strydwedd ac Aelodau'r Cabinet am newid diweddar i ddiwrnod casglu gwastraff ar gyfer rhai o aelwydydd Sir y Fflint.  Dywedodd ei fod yn disgwyl nifer o alwadau ffôn gan bobl yn ei ardal, ond fe aeth y cyfan yn esmwyth.  Serch hynny, dywedodd y Cynghorydd Thomas nad oedd biniau wedi cael eu casglu yn ei ardal o gan fod pobl ddim yn gwybod am y diwrnod casglu newydd. Dywedodd fod yn hyn arbennig o beryglus ar hyd yr A541 lle mae biniau'n cael eu gosod ar y pafin.

Fe ychwanegodd y Cynghorydd Wisinger fod casglu gwastraff yn her enfawr, ond nid y gwasanaeth Strydwedd sydd bob amser yn achosi problemau gan fod rhai pobl yn rhoi'r biniau anghywir allan, yn rhoi gormod o bethau yn y bin neu ddim yn llenwi'r bagiau'n iawn gan achosi i'r sbwriel ddisgyn allan a does gan swyddogion casglu sbwriel ddim amser i bigo sbwriel sydd wedi bod yn hedfan o gwmpas.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) drwy ddweud eu bod wedi dysgu gwersi o newidiadau yn 2012 a bod 10,000 eiddo yn Sir y Fflint wedi newid. Er ei fod yn cydnabod y methwyd rhai strydoedd, cawsant eu casglu'n fuan gan y criwiau oedd angen amser i ddysgu'r rowndiau newydd.  Fe ychwanegodd y dylai unrhyw dystiolaeth o flerwch gael ei adrodd yn syth bin, gan ei bod hi'n anoddach ymateb i adroddiadau ddiwrnodau wedyn.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Dolphin, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio i roi manylion cyswllt/rota dyletswydd i Aelodau ar gyfer casgliadau gwastraff oedd yn cael eu methu ar ddyddiau Sadwrn.

Siaradodd y Cynghorydd am y ffaith tra bod ailgylchu wedi rhagori ar dargedau, roedd targedau trefniadau teithio lleol a osodwyd wedi dyblu ac roedd gwaith cyfleustodau wedi cyflawni mwy na'r hyn oedd wedi'i gynllunio ac roedd angen eglurhad ar ardaloedd nad oedd yn bositif.  Gofynnodd ble oedd y trothwy a ble roedd yn sbarduno statws COG gan nad oedd yn eglur, ac fel dogfen gyhoeddus fe ddylai fod.  Gan ymateb dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y byddai'n mynd â'r mater yn ôl at y Tîm Perfformiad i ymchwilio.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 72. DIWEDDARIAD AR DALIADAU GWASTRAFF GERDDI YN SIR Y FFLINT

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio ddiweddariad ar dymor casglu gwastraff gardd 2020 ers i'r newidiadau gael eu gweithredu fel rhan o'r adolygiad o ffioedd blynyddol a chyflwyno system tag newydd sydd wedi disodli'r sticer.  Fe bwysleisiodd nad oedd yna ddyletswydd ar y Cyngor i gasglu gwastraff gardd; serch hynny roedd gwastraff gardd yn cyfrannu'n sylweddol at berfformiad ailgylchu cyffredinol a'i fod yn wasanaeth taladwy yn ôl disgresiwn sy'n cael ei gynnig i leihau gwastraff tirlenwi a chreu refeniw er mwyn darparu gwasanaethau statudol eraill fel yr argymhellir gan Glasbrint Casgliadau Gwastraff Llywodraeth Cymru (2011).

Wrth ymateb i gwestiynau am y ffioedd a sut roedd y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo ymysg y rhai nad oedd wedi tanysgrifio eto, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod y ffi gostyngedig o £32 dal ar gael ar gyfer taliadau ar-lein. Byddai modd i aelodau'r cyhoedd oedd methu gwneud taliad ar-lein wneud hynny yn un o swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu a bydd aelod o staff yn eu cwblhau ar-lein iddynt. £35 oedd y ffi ar gyfer taliadau a wnaed ar ôl 1 Mawrth 2020 dros y ffôn neu mewn ciosg talu yn Sir y Fflint yn Cysylltu ar gyfer taliadau arian parod. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cyflwyno taliadau Debyd Uniongyrchol y flwyddyn nesaf. Gwnaed dadansoddiad o sut roedd taliadau'n cael eu gwneud a hyd yn hyn, roedd 70% yn digwydd ar-lein a 30% yn digwydd yn bersonol.

Cytunodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i roi cyfarwyddiadau i bob criw i gasglu biniau brown hyd yn oed os oedd y tagiau wedi cael eu gosod ben uchaf isaf gan ymateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd Hardcastle.

Cynigiwyd argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Dave Wisinger ac eiliwyd gan y Cynghorydd Andy Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar gynllun casglu gwastraff gardd 2020 yn cael ei nodi.

## 73. TRWYDDEDU GWASTRAFF A LLIF DATA

Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Craffu, cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad am drosolwg trwyddedu gwastraff a gweithgareddau adrodd llif data o fewn y Cyngor. Y pwyntiau allweddol oedd;

- Trwyddedu gwastraff
- Dyletswydd gofal
- Cludydd gwastraff
- Adrodd gwastraff

Roedd y Cadeirydd ac Aelodau yn hapus iawn gyda manylder yr adroddiad a'r hyn oedd wedi cael ei wneud ac fe wnaethant eu hannog nhw i gario ymlaen gyda'r gwaith da. Dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) a Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y byddent yn cyfleu eu canmoliaeth yn ôl iddynt.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Owen Thomas ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sean Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 74. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.17 pm)

..................................................
**Y Cadeirydd**